pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2018 Rhif 441


Sioe Tal-y-bont – gweler atodiad lliw, canlyniadau tud 7-10

tud 3, 5, 15 Pobl a Phethe
tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 4, 13 Priodasau
tud 11, 14 Teyrngedau

# Diflaniad ciosgau ffôn Tal-y-bont a Taliesin




Daeth diwedd ar wasanaeth ffôn cyhoeddus i ardal Tal-y-bont a Thaliesin yn ystod y dyddiau diwethaf wrth i'r ciosgau cael eu cludo oddi ar y safleoedd gan BT.

Er i'r olygfa brofi syndod i nifer o drigolion yr ardal a fu'n dyst i'r digwyddiad doedd diflaniad y ciosgau ddim yn annisgwyl gan mai canlyniad oedd hyn i ymgynghoriad lleol ac adroddiadau yn y wasg o'r bwriad i gael gwared ar bron i hanner y ciosgau ffôn cyhoeddus y wlad.

Hysbyswyd taw ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r gwasanaeth, a'i bod yn bwriadu eu cau. Gall Papur Pawb ddatgelu mai yn ystod y flwyddyn yn arwain at y penderfyniad ni chafodd yr un alwad ei wneud o'r ciosg yn Nhal-y-bont.

Adroddwyd y newyddion am y cynlluiau yma yn gyntaf yn rhifyn Hydref 2016 o Bapur Pawb lle nodwyd y canlynol:

"Mae Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr wedi derbyn llythyr oddi wrth BT yn cynnig iddynt fabwysiadau'r ciosg er budd y gymuned, ond na ddaeth dim o'r cynnig hwnnw.


Penderfynodd Gyngor Cymuned Ysgubor-y-coed fabwysiadu'r ciosg yn Eglwys Fach gan osod diffibriliwr ynddo.

Gyda diflaniad yn ddau giosg yma, fydd yna'r un ffôn talu cyhoeddus ar y briffordd rhwng Bow Street a gogledd y sir. Ond oes wir eu hangen?

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan OFCOM ym mis Awst, mae 91% o oedolion yng Nghymru yn meddu ar ffôn symudol, gyda 65% o bobl yn meddu ar ffôn deallus.

Ond, fel mae llawer ohonom yn gwybod, stori arall yw llwyddo i gael signal."

Codi pais fyddai cynnig syniadau am ddefnydd amgen i'r ciosgau a hwythau ar y ffordd i fynwent y sgrap. Ond mae gweld datrysiadau cymunedau eraill, megis troi'r ciosgau'n lyfrgell benthyg neu ofod solar i chargio'ch ffon symudol yn codi'r cwestiwn a ydyn ni wedi colli cyfle?




**Effaith yr haf poeth – tudalen 5**

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 2


## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | (01970) 832560 |
| Tynnu lluniau: | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | GOHEBYDDION LLEOL | |
| Tal-y-bont: | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | 832592 |
| Maes-y-deri: | Karren Roberts | 07800 806578 |
| Parsel Henllys: | | |
| Bont-goch: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Tre Taliesin: | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | 832230 |
| Tre'r-ddôl: | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl<br>Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl | (01654) 781260<br>832028 |
| Eglwysfach/Ffwrnais: | Non Griffiths | (01654) 703635 |
| Rhwydweithiau cymdeithasol: | Ceri Morgan | |
| | CYMDEITHAS PAPUR PAWB | |
| Cadeirydd: | Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont | 832203 |
| Is-gadeirydd: | Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont | 832697 |
| Ysgrifennydd: | Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont | 832344 |
| Trysorydd: | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| Tanysgrifiadau: | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | 832448 |
| Hysbysebion: | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | 832076 |
| Plygu'r Papur: | Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins | |
| Dosbarthwyr: | Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams | |

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)
CYMRAEG


# Llythyr

Annwyl Olygydd

**CYFARFOD CYHOEDDUS EISTEDDFOD 2020**

Rwy'n ysgrifennu atoch i holi a oes modd i chi ein helpu i hyrwyddo'r ffaith y cynhelir cyfarfod cyhoeddus i groesawu Eisteddfod Genedlaethol 2020 i Geredigion yn Ysgol Gyfun Aberaeron, nos Iau, 20 Medi, os gwelwch yn dda.

Bwriad y cyfarfod, a gynhelir am 19:00, yw gwahodd trigolion yr ardal i fod yn rhan o'r paratoadau a'r trefniadau ar gyfer un o wyliau mawr y byd a gynhelir yn y sir o 1-8 Awst, gyda'r cyngerdd agoriadol ar nos Wener 31 Gorffennaf 2020.

Mae croeso mawr i bawb, ac mae'r trefnwyr yn awyddus i ddenu unigolion o bob rhan o'r ardal i fod yn rhan o'r prosiect. Mae cefnogaeth leol yn eithriadol o bwysig i lwyddiant yr Eisteddfod a'r gwaith a wneir ar lawr gwlad yn rhan ganolog o'r prosiect.

Mae'n anodd credu bod mwy na chwarter canrif wedi pasio ers i ni ymweld ag ardal Ceredigion, ac rydym yn edrych ymlaen at ddod â'r ŵyl yn ôl i ardal sydd bob amser wedi rhoi croeso cynnes iawn i'r Eisteddfod.

Mae'r gweithgareddau cymunedol a'r gwaith allymestyn dros y ddwy flynedd nesaf yn greiddiol i amcanion yr Eisteddfod, a'r gobaith yw y gallwn ddenu criw mawr o wirfoddolwyr brwdfrydig, yn hen ffrindiau a wynebau newydd, i fod yn rhan o'r tîm y tro hwn.

Bydd y gwaith yn cychwyn bron yn syth, gan y byddwn yn dechrau rhoi'r Rhestr Testunau at ei gilydd o fewn ychydig wythnosau ac yn creu pwyllgorau apêl lleol ar draws y dalgylch i ddechrau ar y gwaith o drefnu gweithgareddau a chodi arian.

Felly, dewch draw atom i Aberaeron i glywed mwy am y prosiect, soniwch wrth eich ffrindiau a'ch cydweithwyr, a helpwch ni i greu tîm cryf gyda phobl o bob oed a chefndir sy'n awyddus i weld y Gymraeg yn ffynnu a'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth yn lleol a chenedlaethol.

Gellir cofrestru ar-lein i fod yn rhan o dîm Eisteddfod 2020 drwy glicio yma https://eisteddfod.cymru/eisteddfod-2020/cefnogi/ymuno-a-thim-eisteddfod-2020. Bydd gwefan Eisteddfod 2020 yn cael ei datblygu dros y misoedd nesaf, neu gallwch ffonio'r swyddfa ar 0845 4090 400 am ragor o wybodaeth.

Yn gywir,
*Elen Elis, Trefnydd*






# Dyddiadur

**MEDI**

15 **Cletwr** 'Tân ac Achub Canolbarth Cymru' 3–5
**Taith flynyddol Capel Rehoboth** Gadael Taliesin am 9

16 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu. Cwrdd Eglwys i ddilyn
**Nasareth** 10 John Tudno Williams
**Rehoboth** 10 Beti Griffiths
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gŵyl y Cynhaeaf
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 4.30 Gŵyl y Cynhaeaf
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Hwyrol Weddi
**Bethesda Tynant** 2 Beti Griffiths
**Swper Cynhaeaf** 6 Ystafell Haearn, Eglwysfach
**Cletwr** 'Chwilota am ffyngau' (Tro 3k gyda John Kearney)

18 **Cwrs Byr Microsoft Publisher** 6.30–8.30 Cletwr

19 **Dawnsio Albanaidd** 7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach

20 **Tai Chi** 2–2.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach

23 **Bethel** 10 Uno yn Nasareth
**Nasareth** 10 Judith Morris
**Rehoboth** 10 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gweddi Hwyrol
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Gwasanaeth Boreol

24 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Celf ac Arlunio' (Kim James Williams)

25 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Cadw gwenyn' (Helen Ovens)
**Cwrs Byr Microsoft Publisher** 6.30–8.30 Cletwr
**Tenis Bwrdd** 7 Ystafell Haearn, Eglwysfach

27 **Tai Chi** 2–2.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach

29 **Bore Coffi Macmillan** 10.30–12 Ystafell Haearn, Eglwysfach
**Cletwr** 'Gig Sgarmes' 7.15–9

30 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Nasareth** 11.15 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gweddi Hwyrol
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** Gwasanaeth ag anifeiliaid anwes yng Nghapel Bangor

**HYDREF**

2 **Sefydliad y Merched Taliesin** Hunangofiant Mike Parker

4 **Bethel** 7 Cwrdd Diolchgarwch Undebol (Andrew Lenny)

6 **Cletwr** 10–12 Gofalwyr Bore Coffi

7 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Stryd Popty (Peter Thomas)
**Nasareth** Uno ym Methel
**Rehoboth** 5 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid a Diolchgarwch (Esgob Andy John, Bangor)

9 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Chwedlau mewn gemwaith' (Rhiannon Ifans)

14 **Bethel** 11.15 Uno yn Nasareth
**Nasareth** 11.15 Bugail
**Rehoboth** 10 Huw Roderick

## CYFARFOD BLYNYDDOL

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Papur Pawb ar 4 Gorffennaf. Etholwyd y swyddogion canlynol:
Cadeirydd: Catrin M S Davies
Ysgrifennydd: Rhian Evans
Trysorydd: Rebecca Williams
Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins

## Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Tro a Chlonc' 11–11.45
Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30–10.30

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen, Rhian a Ceri gyda Ceri yn dylunio.
Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 5 Hydref a bydd y papur ar werth ar 12 Hydref.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 3

# Pobl a Phethe

**Diolch**
Dymuna Jen Evans a'r teulu, Neuadd Fawr ddiolch yn ddiffuant ambob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd yn ystod y cyfnod anodd diweddar.

**Swydd Newydd**
Pob dymuniad da i Iolo Davies, Dolclettwr sydd wedi dechrau ar ei swydd newydd ar Fferm y Brifysgol ym Mhwllpeirian.

**Ysbyty**
Gwellad buan i Ron Hicks, Tre'r Ddôl sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

**Glandyfi**
Trist yw cyfnodi marwolaeth Geoffrey Peter Hughes, Y Foelas, ar y 9fed o Orffennaf, yn 79 mlwydd oed. Dioddefodd salwch hir, a chafodd ofal tyner gan eu deulu. Mae ein cydymdemlad dwys a Lillian Hughes ei weddw, eu blant Vanessa a Chris, yr wyron, a'r perthnasau, yn eu colled.

Cafwyd gwasanaeth urddasol i glodfori ei fywyd, yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach, ar 17ain o Orffennaf, ac i ddilyn gwahoddwyd pawb i'w cartref am luniaethaeth ar ol y gwasanaeth.

**Sefydliad y Merched Taliesin**
Llongyfarchiadau mawr i gangen SyM Taliesin am ddod yn ail yng nghystadleuaeth cydweithredol y Mudiad ar y thema Gogoniant yr Haf yn Sioe Frenhinol Cymru Llanelwedd mis Gorffennaf.

**Sioe Frenhinol Cymru**
**Llwyddiant yn adran Gosod Blodau a Gwaith Llaw.**
Bu Beti Wyn, Rhos, Taliesin, yn llwyddiannus yn y Sioe gan gipio dau wobr gyntaf, un ail wobr a dau hefo canmoliaeth uchel am ei gosodiadau yn yr adran flodau. Hefyd, yn yr adran gwaith llaw cafodd dwy wobr gyntaf a dau trydydd wobr am eitemau amrywiol yn cynnwys ffotograffiaeth, gwaith ffeltio a calligraphy.

**Diolch**
Eleni eto mae Cylch Cinio Aberystwyth wedi bod yn hael iawn i *Bapur Pawb* drwy gyfrannu siec sylweddol i'r coffrau. Mae'r papur yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon yn fawr.

**Pob Hwyl**
Dymuniadau gorau i pob un sydd yn dechrau yn y Brifysgol eleni.



Eleni fe fu yn Sioe Amaethyddol Frenhinol wahanol iawn i deulu Dolclettwr. Doedd dim bwrlwm yn y siediau na golchi defaid na smwddio'r cotiau am wythnosau cyn yr wythnos fawr. Ond mi oedd yna gynnwrf gwahanol. Ar fore Iau y Sioe, cafodd Rowland Davies y fraint ar anrhydedd o feirniadu Pencampwriaeth y Pencampwyr Grŵp o Dri yn adran y defaid. Er ei fod wedi blino ac yn chwys domen ar ôl y dasg - mi oedd o wedi mwynhau y profiad ac yn falch o gael yr anrhydedd o feirniadu yn un o sioeau mwyaf Ewrop.



Bu'r ddau gwmni drama lleol sef Licris Olsorts a Doli Micstiyrs yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ddechrau mis Awst yn y gystadleuaeth Actio Drama neu waith dyfeisiedig. Cynhyrchwyd y ddwy gan Sion Pennant, Bontgoch gyda chwmni Doli Micstiyrs yn perfformio drama o'i waith ef sef 'Tu Hwnt i bob Gofid'. Llongyfarchiadau mawr i griw Licris Olsorts am gipio'r drydedd wobr gyda'i perfformiad o 'A'r Maglau wedi Torri' gan Emyr Edwards ac i Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont am gipio Cwpan Bro Dinefwr am yr Actor Gorau yn y gystadleuaeth. Cafwyd canmoliaeth uchel i'r ddau gwmni gan y beirniaid Gwennan Mair a Gwynedd Huws Jones.

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
**Caws, Gwin a Chân**
Cafwyd nosos hwylus iawn ar Nos Wener 30 Mehefin yng nghwmni Bois y Rhedyn o ardal Llanddewibrefi. Fe'u cefnogwyd gan rai o blant dawnus y pentref yn canu ac yn llefaru. John ac Eirwen Hughes, Fferm Pencwm, oedd y llywyddion eleni, a diolchwn iddynt am eu cyfraniad hael tuag at yr achos. Llywyddwyd y noson gan y Ficer, Canon Andrew Loat.

Trist yw cofnodi marwolaeth un o ffyddloniaid mwyaf yr Eglwys, sef y diweddar John Thomas, Rhydyronnen (John Cwmere) ar 26 Mehefin. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Elerch ar 3 Gorffennaf o dan ofal y ficer, Canon Andrew Loat. Talwyd y deyrnged gan ei gyfaill Robat Gruffudd, Tal-y-bont. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i deulu, ac yn arbennig gyda'i weddw Sujittra, a fu mor ofalus ohono yn ei salwch.

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
Ar ddydd Sul, 7 Hydref, 2.30 pm cynhelir Gwasanaeth Cymun Bendigaid a diolchgarwch am y cynhaeaf gydag Esgob Bangor, Y Gwir Barchedig Andy John yn bregethwr gwadd. Bydd hwn yn oedfa ddwyieithog, ac mae croeso i bawb.

**Darlithoedd**
Cynhaliwyd noson ddifyr o ddarlithoedd ar 28 Gorffennaf yn Eglwys St. Pedr. Bu Martin Griffiths QC yn trafod bywyd lliwgar William Cobb Gilbertson, tad Lewis Gilbertson, prif noddwr Eglwys Elerch, tra bu'r Parchg Athro a Chanon Mark Chapman yn mesur dylanwad Mudiad Rhydychen ar ogledd Ceredigion. Diolch i Jonathan Karas, Ficerdy Bont-goch, am drefnu'r noson, ac i'r Parchg Ganon Andrew Loat am wneud y diolchiadau.

**Priodas**
Dymuniadau gorau i Mererid James a Paul Watson a briododd yn Eglwys Elerch ar 1 Medi. Gweinyddwyd y briodas gan Yr Hybarch Hywel Jones.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Myrna Bailey, Arosfa, Taliesin, a ddathlodd ben-blwydd arbennig 13 Medi.

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i Gareth Roberts, Felinfach gynt, ar ennill y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod am gyfansoddi cerddoriaeth jazz.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 4

# Priodasau



Ar yr 28ain o Orffennaf, priodwyd Jamie Davies a Ffion Southgate Maesyderi, Tal-y-bont yn Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn, Llandre. Y morwynion briodas oedd, Siwan Williams, Tiffany Davies a Lauren Southgate. Y gwas briodas oedd Matthew Davies. Hefyd oedd ddwy morwynion fach, Ellen Davies a Leah Hopkins. Mi fydd y mis mêl yn dilyn yn Mis Ebrill.



Ar Ebrill 30 priodwyd Helygen, merch Steve a Hazel Crowther, Yr Hen Dŷ Coets, Tal-y-bont, a Jason Mitchell yn Baisingstoke. Teithiodd chwaer y briodferch, Stevie Rhiannon o Ganada i'r briodas.

# Ysgol Tal-y-bont



Mabolgampau a Barbeciw'r Ysgol




Na Nel



Staffio



Cartwnwyr Campus



Maint Cymru




Ffarwelio

# Ysgol Tal-y-bont

## Ysgol Iach
Ar ddiwedd y tymor, daeth criw niferus a brwdfrydig o rieni at ei gilydd i gynnal taith beics noddedig i godi arian i'r ysgol. Diolch yn fawr i bawb wnaeth seiclo a chefnogi.

## Siarter Iaith
Bu diwrnod diwedd olaf yn un prysur ac egnïol tu hwnt! Diolch yn fawr i Aled o gwmni Ynni Da am sbarduno trafodaeth am gerddoriaeth Gymraeg ymysg y disgyblion. Roedd hi'n hyfryd gweld yr athrawon yn dawnsio yn y disgo erbyn y prynhawn hefyd! Diwrnod gwych!

## Gweithdy Barddoniaeth
Trefnwyd diwrnod arbennig yn cyfansoddi cerddi difyr yn Amgueddfa Ceredigion heddiw. Diolch yn fawr i Mared Llwyd am ein helpu.

## Proms Ceredigion
Llongyfarchiadau mawr i blant hŷn yr ysgol am berfformiadau cerddorol a lleisiol arbennig yn y Proms blynyddol. Cafwyd cyngerdd gwirioneddol wych â Chanolfan y Celfyddydau yn llawn dop.

## Tripiau Diwedd Tymor
Mwynhaodd pawb ein tripiau ysgol eleni eto. Aeth plant hŷn yr ysgol i Fferm Folly yn Sir Benfro a phlant y Cyfnod Sylfaen i Sŵ Borth ac yna i'r traeth. Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rieni'r ysgol am noddi'r tripiau hyn.

## Mabolgampau a Barbeciw'r Ysgol
Llongyfarchiadau mawr i dîm Ceulan am ennill y mabolgampau eleni. Llongyfarchiadau hefyd i'r unigolion ar ennill tlysau yn ystod y dydd a diolch yn fawr i'r capteiniaid am bob cymorth yn ystod y dydd. Roedd hi'n brynhawn hyfryd gyda llawer o rieni a ffrindiau'r ysgol yn ein cefnogi fel arfer.

Cynhaliwyd ein barbeciw cyn diwedd y tymor hefyd, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd ar gae'r ysgol.

Diolch yn fawr i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi ar gyfer y ddau ddigwyddiad ac i Mrs Jones a staff y gegin am bob cymorth ar y noson hefyd.

## Na Nel
Roedd yna wynebau hapus iawn ar ôl gwylio perfformiad o Na Nel yng Nghanolfan y Celfyddydau cyn diwedd y tymor. Diolch yn fawr i gwmni Theatr Arad goch am ein diddanu ni gyd.

## Maint Cymru
Diolch yn fawr i Ann o Maint Cymru am ddod i ymweld â ni cyn diwedd y tymor heddiw. Roeddem ni wedi dysgu cymaint am y coedwigoedd glaw yn ei chwmni.

## Cartwnwyr Campus
Llongyfarchiadau mawr i'r ddau gartwnydd ifanc yma am ddod ymysg y goreuon yng nghystadleuaeth creu anghenfil arswydus a drefnwydgan gylchgrawn Mellten.

## Staffio
Ar ddiwedd y tymor cawsom gyfle heddiw i ddiolch i Mrs Myfanwy James am ei chyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros nifer fawr o flynyddoedd. Byddwn yn gweld eich eisiau'n fawr ond fe fyddwn yn dal i weld Mrs James yn aml wrth iddi gasglu'r arian cinio.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Hughes ar enedigaeth Ania Wyn yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch a chofiwch alw i'n gweld yn fuan.

## Ffarwelio
Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 llynedd wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgolion uwchradd a llongyfarchiadau mawr i'r cyn ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf. Pob hwyl i chi gyd yn y dyfodol.

# Effaith yr haf poeth

Gyda'r haf wedi dod i ben a thymor yr hydref wedi dechrau, diddorol yw edrych nôl ar dywydd haf 2018. Recordiwyd y tymheredd uchaf yng Nghymru o 32.6°C ym Mhorthmadog ar ddiwedd mis Mehefin. Ond nid yw hynna'n curo'r record am y tymheredd uchaf erioed yng Nghymru, sef 35.2°C ym Mhont Penarlâg, Sir y Fflint, ar yr 2il o Awst 1990.



Dros Gymru gyfan yn ystod misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst, roedd y tymheredd cymedr yn 15.9°C sef 2°C yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd 650 awr o heulwen a 26 diwrnod gyda llai na 1mm o law y disgyn.

Gwelwyd lefel y dŵr yng Nghronfa Nant y Moch yn disgyn yn sylweddol ond yn ôl Dŵr Cymru nid oedd ganddynt gonsyrn am lefelau'r dŵr yng Ngheredigion dros yr haf.

Bu effaith bositif ar economi a thwristiaeth yng Nghymru ac mae'r rhagolygon am y niferoedd o ymwelwyr a ddaeth i Geredigion dros yr haf yn dda.

Effaith ddiddorol iawn o'r tywydd sych oedd i oelion safleoedd hanesyddol ddod i'r golwg a fyddai fel arfer yn cael eu gorchuddio gan borfa las. Gwelwyd y rhain o'r awyr gan dîm o'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn Aberystwyth. Meddai Dr Toby Driver, Uwch Ymchwilydd o'r Awyr: 'Dydw i ddim wedi gweld amodau fel hyn ers i mi ddod yn gyfrifol am hedfan archeolegol y Comisiwn Brenhinol ym 1997. Mae'r archaeoleg newydd rydym ni'n ei gweld yn anhygoel. Bydd y gwaith brys yn yr awyr yn awr yn arwain at fisoedd o ymchwil yn y swyddfa yn ystod misoedd y gaeaf i fapio a chofnodi'r safleoedd rydym wedi'u gweld a datgelu eu gwir arwyddocâd.'

Ond bu effaith y tywydd sych yn niweidiol i lawer yn y byd amaeth gyda'r diffyg glaw yn cael effaith ar safon cnydau. Mae rhagolygon y bydd pris bwyd anifeiliaid yn codi ac yn sgil hyn yn cael effaith ar bris bwyd yn y siopau.

# Pobl a Phethe

**Nain a Taid**
Llongyfarchiadau i Rowland a Bethan Davies, Dolclettwr am ddod yn Nain a Taid (Rol) unwaith eto. Ganwyd mab bach Ifan John ar y 5ed o Orffennaf i Gareth a Mari a brawd bach i Anni.

**Cneifio**
Llongyfarchiadau i Gwion Evans, Fferm Tanllan am ennill y Pencampwriaeth Cneifio Canolradd yn y Sioe Frenhinol eleni. Enillodd tlws coffa T E Lewis, pen cneifio Lister a £60.

**Margaret Elizabeth Dunn**
gynt o Penrhyngerwin, fu farw'n dawel ar 2 Ebrill yn 76 oed. Claddwyd ei llwch ar ddydd Sadwrn, 18 Awst, yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach, gyda theulu a ffrindiau'n bresennol.

**Dymuniadau Gorau**
Dymunwn yn dda i Mrs Joan Dare, Bwlchrosser, Bont-goch, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir gyda theulu y diweddar Mrs Regina Jones, Llandre, sef ei meibion John Henry ac Alun, a'i merch Anne, sydd i gyd yn byw ym mhentref Bont-goch. Cynhaliwyd angladd Mrs Jones yn Eglwys Llanfihangel Geneu'r-glyn ar 21 Gorffennaf.

Cydymdeimlir hefyd gyda Shân, priod John Henry, a'i theulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr David Scurlock Evans, Maes Henllan, Llandre ar 12 Awst. Bu'n gyfnod anodd i'r teulu wrth iddi hefyd golli ewythr, Mr Alun Phillips, yng Nghaerfyrddin ar 27 Awst.

**Llefydd Pasio**
Bydd pawb yn Bont-goch sydd cael trafferth refersio yn falch i weld creu nifer o fannau pasio rhwng Plas Cefn Gwyn a Phenrhiwiau ar hyd y ffordd drwy Gwm Eleri. Bydd y ffordd ar gau yn ystod y dydd am rai wythnosau ar ddechrau Medi i gwblhau'r gwaith.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 6

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Swydd y Clerc**

Mae'r Cyngor wedi apwyntio Clerc newydd - Rab Jones. Fe ymunodd â'r Cyngor yng nghyfarfod mis Gorffennaf i gysgodi'r Clerc ymadawol, Lowri Jones, ac fe fydd yn cychwyn ar ei waith yng nghyfarfod mis Medi. Estynnwyd diolch Lowri am ei gwaith dros y blynyddoedd.

**Materion Amrywiol a godwyd ag adran Gwasanaethau Technegol, Cyngor Sir Ceredigion**

Adroddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins, fod Brian Thomas, Peiriannydd Cynorthwyol Gweithrediadau Cyngor Sir Ceredigion, wedi cwrdd ag aelodau o'r Cyngor Cymuned ar ddiwedd mis Mai i archwilio nifer o safleoedd dros y plwyf. Ers ei ymweliad, nodwyd fod nifer o dyllau yn y ffordd wedi cael eu llenwi, megis ger Braichgarw, a rhwng y Felin Penpompren a'r ffald. At hyn, nodwyd fod tarmac wedi'i osod ar y ffordd yng Nghwm Ceulan i ledu'r ffordd ger Coed Carregcadwgan a bod y gwter yno hefyd wedi'i dadflocio, ond bod angen sylw o hyd ar yr hollt yn y ffordd. Cytunwyd i'r aelodau cadw llygaid ar y namau amrywiol eraill, ag adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**Cadarnhau Ffurflen Blynyddol 2017-18**

Yng nghyfarfod mis Mehefin, derbyniwyd y Datganiad Ariannol Blynyddol am 2017/18 gan yr aelodau, a rhoddwyd caniatâd i'r Cadeirydd ei arwyddo yn unol â'r gofyniad statudol.

**Siop y Spar, Tal-y-bont**

Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned wedi danfon llythyr arall at Mr Gnanaseelan, sydd yn llesio'r gofod y siop, i ofyn a fyddai modd iddo gynnig diweddariad i'r gymuned ynglŷn â phryd bydd y siop yn ail-agor. Nid yw'r Cyngor wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.

**Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion – Ymgynghoriad: Helpwch ni i'ch Helpu chi - Ein sgwrs barhaus**

Derbyniwyd hysbys wrth Gyngor Sir Ceredigion ei bod yn cynnal sgwrs gyda thrigolion y Sir ynglŷn â sut allent roi llais iddynt o ran cryfhau ein cymunedau a dylunio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Maent yn gofyn i bobl wylio fideo gwybodaeth fer cyn ateb rhai cwestiynau mewn arolwg. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor trwy ymweld â'r dudalen 'Ymgynghoriadau', neu drwy ddilyn y dolenni isod. Mae croeso i unigolion gysylltu â 01545 570881 os byddant yn dymuno derbyn y wybodaeth mewn unrhyw fformat arall neu am gopi papur o'r arolwg.

Cymraeg: http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/helpwch-ni-i-ch-helpu-chi/

Saesneg: http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/help-us-to-help-you/




**MEDI**

**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i fwydo'r blodau gan gynnwys y rhai yn y basgedi.

Gallwch blannu hyacinth ac amaryllis ar gyfer y Nadolig.

Plannwch fylbiau saffrwm a chennin Pedr. Mae'r hydref yn amser da i blannu coed a llwyni pan fo ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.

Ewch o gwmpas i dorri'r blodau sydd wedi gwywo, fe gewch gnwd o flodau newydd yn eu lle.

**Yn yr ardd lysiau**

Os oes gormod o gnwd, dyma'r amser i'w cadw, eu piclo, gwneud jamiau, eu rhewi a'u storio. Rhowch gynnig ar ryseitiau newydd.

Gallwch dorri blaendyfiant y tomatos rŵan.

Os daw 'llaeth' allan o'r ffa melyn, mae'n barod i'w fwyta.

Os oes ôl malltod[blight] ar y tatws, torrwch y dail rhyw 3 wythnos cyn eu codi.

Gadewch y tatws i sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw – ond dim ond y tatws iach - mewn sachau wedi iddyn nhw sychu'n dda.

Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had.

Peidiwch â chodi pys a ffa o'r ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi nitrogen i'r pridd.

Rhowch ychydig o fintys a phersli mewn potyn ar gyfer y gegin dros y gaeaf.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

**Cyffredinol**

Tacluswch y gwely mefus rhag elfennau niweidiol.

Taflwch unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru.

Dylech ddyfrio'r tŷ gwydr yn y bore; mae botrytis yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau.

Gellir hau hadau lawnt ym mis Medi. Gallwch hefyd fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

Bistro
Gannets
Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Sioe Tal-y-bont

Cafwyd Sioe ardderchog a hwyliog eto eleni, ar ddydd Sadwrn penwythnos gŵyl y banc, mis Awst.

Roedd y tywydd yn braf a digon i diddanu pawb yno yn ôl yr arfer. Braf yw gweld y babell crefftau yn mynd o nerth i nerth, gyda llawer o stondinau a chynnyrch lleol amrywiol.

Llywyddion y Sioe oedd Beti ac Ifan Jenkins, Pengwern (Carregcadwgan gynt), a chyflwynwyd blodau iddynt i ddiolch am eu gwaith gan Elsi Iago, Pantcoch, Tal-y-bont.

Yn dilyn y traddodiad, roedd y rasus cwn yn ddiweddglo hwyliog i'r diwrnod.

Llongyfarchiadau mawr i'r pwyllgor, i'r llywyddion ac i'r holl wirfoddolwyr am drefnu sioe hwyliog a graenus sy'n denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o bell ac agos. Dyma ddigwyddiad y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

**Canlyniadau Lleol**

**GWREIDDIAU A GRONYNNAU**
**Belen o Wair Dôl**
1. David Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

**CYNNYRCH GARDD**
**3 Winwnsyn (Hadau)**
1 a 2. Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont
**Casgliad o bum winwnsyn**
2. Anthony Holt
**Llysieuyn di-siap**
1. Anthony Holt
**3 Panasen**
3. Anthony Holt
**4 Taten Lliw**
1. Anthony Holt
**4 Coden Ffa Dringo**
3. Mina Morel, Llawryglyn, Bontgoch
**4 Coden Bys**
2 a 3. Elfed Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont
**1 Sypyn o Domatos**
3. David Jones
**2 Ciwcymbr**
1. Claire Fowler, Bron-y-gân, Tal-y-bont
3. David Jones
**6 Tomato Ceirios**
1. Sarah Reisz, Bryngryffty, Tal-y-bont
2. Claire Fowler
**4 Ffa Ffrengig**
1 a 3. Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont
**4 Coden o Ffa**
1. David Jones
**3 Coesyn Riwbob**
2. Anthony Holt
**3 Corbwmpen**
1. Sarah Reisz

**LLEOL**
**Casgliad o 4 Perlysiau**
1 a 2. Helen Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
3. Sarah Reisz
**3 Corbwmpen**
1. John Foster, Bristol House, Tal-y-bont
2. Helen Hicks
3. Sarah Reisz
**4 Taten**
1 a 2. Helen Hicks
3. John Foster
**3 Coesyn Riwbob**
1 a 3. Elfed Jones
2. Anthony Holt
**4 Ffa Dringo**
1. Anthony Holt
2. David Jones
3. John Foster
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Sara Reisz
2. Claire Fowler
3. John Foster

**FFRWYTHAU**
**3 Afal Bwyta**
1. Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
2 a 3. Cath Lloyd-Williams, Min y Gors, Taliesin
**3 Afal Coginio**
1. Cath Lloyd-Williams
**3 Peren Fwyta**
2. Ffion Nelmes, Dolau Gwyn, Llangynfelyn
3. Marc Richards
**3 Peren Goginio**
1 a 3. Elfed Jones
2. Mai Leeding, Glan Nant, Taliesin
**3 Eirinen**
2. Sarah Reisz
3. Marc Richards
**6 Eirinen Ddu**
1. Sarah Reisz
3. Elfed Jones

**BLODAU**
**4 Pysen Bêr**
2. Sarah Reisz
**6 Math o Flodau'r Ardd wedi'u henwi**
1. Sarah Reisz
**Cynhwysydd o Flodau Blynyddol**
1. Sarah Reisz
**Suddlon mewn Pot**
2 a 3. Sarah Reisz
**Planhigyn Dail y Tŷ mewn Pot**
1. Sarah Reisz
**Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot**
1 a 2. Sarah Reisz
**Begonia mewn Pot**
2. Mai Leeding
**Ffiwsia yn ei flodau mewn Pot**
1 a 3. Sarah Reisz
**Blodyn Twll Botwm Gorau**
1. Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin
**Tusw Ysgwydd Gorau**
1. Beti Wyn Davies
**Basged grog yn ei blodau**
1. John Foster
**Blwch Ffenestr yn ei flodau**
1. Mai Leeding
**NIFER UCHAF O BWYNTIAU YN YR ADRAN LEOL**
Sarah Reisz
**Y FASGED GROG ORAU**
John Foster

**GOSOD BLODAU**
**Anadl yr Hydref (trefniant ar raddfa fach)**
2 a 3. Beti Wyn Davies
**Mentro bod yn wahanol (trefniant modern neu haniaethol)**
1. Christine Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r-ddôl
3. Beti Wyn Davies
**Amser dathlu (trefniant talcen côr)**
1. Christine Gilbert
2. Beti Wyn Davies
**Gŵyl y Cynhaeaf**
1. Beti Wyn Davies
2. Ffion Hicks
**Ceinder y tu allan**
1. Beti Wyn Davies
**'Syrpréis!' – i'w osod o flaen cynulleidfa**
1. Siona Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont
2. Jill Leonard, Bronygan, Tal-y-bont
3. Rosie Bailey, Troed rhiw seiri, Bontgoch a Zoe Libman, Bronygan, Tal-y-bont
**ARDDANGOSFA ORAU YN YR ADRAN**
Beti Wyn Davies
**ARDDANGOSFA ORAU YN NOS 99-102**
Beti Wyn Davies
**ARDDANGOSFA ORAU YN Y DOSBARTH O FLAEN CYNULLEIDFA**
Siona Laverty

**CACENNAU WEDI'U HADDURNO**
**Cacen Dathlu**
2 a 3. Liz Roberts, 12 Maes-y-deri, Tal-y-bont
**4 Cacen gwpan wedi eu haddurno**
2. Liz Roberts
**Sbwng wedi ei haddurno**
2. Liz Roberts

**COGINIO**
**Cacen Ffrwythau**
1. Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont
2. Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont
**Sbwng Fictoria**
1. Dylan Jones, Awel-y-gors, Tal-y-bont
2. Elfed Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont
**Cacen Lemwn**
2. Liz Roberts
2. Marc Richards
**Cacen Foron**
1. Liz Roberts
**Sbwng Siocled**
2. Ceri Jones
**Bara Brith – heb furum**
2. Marc Richards
**Torth Cartref – Tin Hirsgwar**
1. Elfed Jones
2. Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
3. Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch
**4 Sgon**
1. Liz Roberts
2. Jane Bailey
3. Marc Richards
**6 Pice ar y Maen**
1. Liz Roberts
2 a 3. Frances Foster, Bristol House, Tal-y-bont
**Swis-rôl**
1. Liz Roberts
**Cacen gaws – heb ei chogino**
1. Marc Richards
2. Elfed Jones
**Fy hoff gacen gyda'r rysait**
1. Jo Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
2. Rosie Bailey
**Fflan Sawrus**
2 a 3. Frances Foster
**4 Fflapjac**
1 a 2. Ceri Jones, Awel-y-gors, Tal-y-bont
3. Frances Foster
**Pei meringue lemwn**
2. Liz Roberts
**Cacen Banana (cystadleuaeth i wrywod)**
1. Jason Pitt, Minafon, Tal-y-bont
2. Ben Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
3. Luke Jones, Hyfrydle, Tal-y-bont
**ARDDANGOSFA ORAU**
Janet Jones
**PWYNTIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Liz Roberts
**PWYNTIAU UCHAF YN YR ADRAN I WRYWOD**
Marc Richards ac Elfed Jones
**4 EITEM YN DEFNYDDIO MWYAR DUON**
Jane Bailey

**CYFFEITHIAU**
**Jar o Farmalêd**
1 a 2. Mair Rowlands, Erglodd, Taliesin
**Jar o Jam Ffrwythau Meddal**
1. Mair Rowlands
2. Helen Hicks
3. Mina Morel
**Jar o Jam Ffrwythau gyda Charreg**
1. Mair Rowlands

2 a 3. Helen Hicks
**Jar o Jeli Ffrwythau**
2. Nia Richards
3. Helen Hicks
**Jar o Geuled Lemwn**
3. Mair Rowlands
**Jar o Siytni Afal**
1. Janet Jones
3. Helen Hicks
**Jar o Siytni Ffa Dringo**
3. Janet Jones
**Jar o Siytni arall**
1. Janet Jones
**Jar o Gyffaith Anarferol**
3. Janet Jones
**Tri Cyffaith i'w Cyflwyno'n Anrheg**
3. Helen Hicks
**Dysgl Fach o Paté**
1. Mick Fothergill
3. Nia Richards
**Potel o Gordial**
3. Nia Richards
**ARDDANGOSFA ORAU**
Mair Rowlands

**GWAITH LLAW**
**Sampler**
2. Louise Ferguson, Bristol House, Tal-y-bont
**Rhodd i Faban**
1. Catrin Saunders-Jones, Bwthyn y Fagwyr, Llandre
**Dilledyn wedi ei weu â Llaw**
1. Jane Pugh, 2 Wesley Terrace, Tre'r Ddôl
**Unrhyw Eitem wedi ei Grosio**
1. Catrin Saunders-Jones
**Unrhyw Eitem mewn Gwaith Cynfas**
3. Jane Pugh
**Eitem Nadoligaidd**
2. Jane Pugh
3. Louise Ferguson
**Bag – unrhyw gyfrwng**
2. Claire Fowler
**Cerdyn Cyfarch**
1. Nia Richards
**ARDDANGOSFA ORAU**
Jane Pugh

**CREFFT**
**Arwydd**
1. Cath Maguire, Barynys, Tal-y-bont
3. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**Collage allan o ddeunydd naturiol**
1. Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
**Eitem o Waith Coed**
3. Barry Wise, Bryngryffty, Tal-y-bont
**Ffiol Ffrwythau – unrhyw gyfrwng**
1 a 2. Stephen Owen, Rhoslan, Tal-y-bont
3. Liam Maguire, Barynys, Tal-y-bont
**Unrhyw eitem yn defnyddio broc môr**
3. Jenny Fothergill
**Unrhyw eitem yn defnyddio gwlân**
1 a 2. Beti Wyn Davies
**Paentiad – unrhyw gyfrwng**
1. Jane Pugh
3. Mick Fothergill
**Paentiad – unrhyw gyfrwng (lleol)**
1. Cath Maguire
2. SGR Haynes, Tŷ Cefn, Tal-y-bont
**PWYNTIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Cath Maguire

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Adeilad Adnabyddus**
2 a 3. Billy Swanson, 10 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**Llifogydd**
2. Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont
**Fy hoff lun gyda phenawd**
3. Craig Swanson, 10 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**Llun doniol o anifail anwes**
3. Lisa Southgate, Morawel, Tal-y-bont
**Eira**
2. Beti Wyn Davies
3. Craig Swanson
**Olwynion**
2. Beti Wyn Davies

**PLANT YSGOL GYNRADD TAL-Y-BONT**
**Dosbarth Meithrin: Lliwiau'r Enfys**
1. Cai Lloyd Williams
2. Bodhi Foster
3. Elis Wyn Jones
**Dosbarth Derbyn: Y Môr**
1. Osian January McCann
2. Alexander Bamford
3. Isla Haddon
**Blwyddyn 1 a 2: Y Môr**
1. Swyn Jones
2. Joel Lewis
3. Hedydd Beechey
**Blwyddyn 3 a 4: Adeiladau Enwog**
1. Kelsey Murray
2. Tyler Murray
3. Ava Lewis
**Blynyddoedd 5 a 6: Adeiladau Enwog**
1. Efa Saunders Jones
2. Celsea Southgate
3. Violet Jordan

**PLANT YSGOL GYNRADD (AGORED)**
**Dosbarth Meithrin: Paentiad o Ymbarél**
1. Gruffudd Jones
2. Ieuan Evans
3. Elinor Jenkins
**Dosbarth Derbyn: Paentiad o neidr**
1. Osian Jones
2. Mari Evans
3. Sarah Jackson
**Blwyddyn 1 a 2: Anifail allan o glai**
1. Tomos Breeze
2. Tomos Breeze



Llongyfarchiadau mawr i Dyfed Evans, Glanrafon, Tal-y-bont ar ennill Pencampwr Adran y Defaid Mynydd Cymreig yn Sioe Tal-y-bont gyda hwrdd wedi ei fagu, cyn mynd ymlaen wedyn i gipio Is-bencampwr y Sioe yn yr Adran Ddefaid.

**Blwyddyn 3 a 4: Collage o ddefaid**
1. Tomos Saunders Jones
**Blynyddoedd 5 a 6: gwneud 1 blodyn â llaw**
1. Ella Thomos
2. Chloe Allenby

**PLANT YSGOL UWCHRADD**
**Llawysgrifen – rhestr siopa**
2. Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont
3. Becca Fflur
**Tynnu llun 5 eitem yn dechrau gyda "C"**
1. Ffion Hicks
2. Heledd Davies
3. Becca Fflur
**Eitem wedi ei gwneud yn yr ysgol**
1 a 2. Ffion Hicks
3. Heledd Davies

**CLWB FFERMWYR IFANC**
**Eitem wedi ei wneud yn yr Ysgol**
1. Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
**ARDDANGOSFA ORAU**
Bedwyr Siencyn

**Gwartheg godro**
**Heffer Ifanc**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
2. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Buwch gyflo**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Heffer odro**
1. G+R Watkin, Henllys, Dolybont
2. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Buwch odro**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
2. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
3. G + R Watkin, Henllys
**Pâr**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
2. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
3. G + R Watkin, Henllys

**Pencampwr:** Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Is-bencampwr:** G+R Watkin, Henllys

**Da duon**
**Tarw a aned cyn 1.1.2016**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Llo tarw a aned rhwng 1.1.2017 a 31.12.2017**
1. Rowland Rees, Brysgaga
2. Trefor Jones, Cwmcae
**Heffer a aned rhwng 1.1.2016 a 28.2.2017**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
3. Trefor Jones, Cwmcae
**Heffer a aned ar ôl 1.3.2017**
2. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Llo a aned yn 2018**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
3. Teulu Jenkins, Cerrigcarannau
**Pâr**
1. Teulu Jenkins Cerrigcarannau
2. Trefor Jones, Cwmcae

**Pencampwr:** Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Is bencampwr:** Teulu Jenkins Cerrigcarannau

**Buwch a llo mewn lloc**
2. Rowland Rees, Brysgaga
3. Teulu Cerrigcarannau

**Adran Biff**
**Llo a aned yn 2018**
1. Huw Jones, Llety cynnes

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 9

**Is bencampwr Adran Biff:** Huw Jones, Llety Cynnes

**Tywysydd ifanc o dan 12 oed**
1. Carys Watkin, Henllys

**Pencampwr y pencampwyr adran y gwartheg**
**Pencampwr:** Teulu Jenkins Cerrigcarannau
**Is bencampwr:** Teulu Jenkins Cerrigcarannau

**Defaid Mynydd Cymreig**
**Hwrdd**
1. Dyfed Evans, Glanrafon
2. Teulu Tyngraig
**Hwrdd blwydd**
1. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tyngraig
3. D Nutting, Tŷ Hen, Henllys
**Oen hwrdd**
1. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tyngraig
3. Teulu Tyngraig
**Dafad dwy flwydd ac hŷn**
3. Teulu Tyngraig
**Dafad flwydd**
1. Teulu Tanrallt
3.Teulu Tanrallt
**Oen fenyw**
1.Teulu Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
3. Teulu Tyngraig
**Grŵp**
Teulu Tyngraig
**Pâr o hyrddod**
1. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
**Pencampwr** Dyfed Evans, Glanrafon

**Suffolk**
**Oen hwrdd**
1. Elfed a Ffion Jones, Berthlwyd
**Dafad**
3.Huw Jones, Llety Cynnes

**Defaid Torddu**
**Dafad**
2. Dafydd Williams, Morawel, Tal-y-bont
**Dafad flwydd**
3. Dafydd Williams, Morawel, Tal-y-bont

**Defaid Torwen**
**Hwrdd**
2. Dafydd Williams, Morawel
**Oen hwrdd**
2. Dafydd Williams, Morawel
**Dafad**
1. Dafydd Williams, Morawel
**Grŵp**
Dafydd Williams, Morawel

**Unrhyw frid mynydd arall**
**Hwrdd**
3. Dafydd Williams, Morawel
**Oen hwrdd**
2. Dafydd Williams, Morawel
**Dafad**
3. Teulu Evans, Tanllan, Llancynfelyn
**Dafad flwydd**
1. Trefor Jones, Cwmcae
3. Dafydd Williams, Morawel
**Pencampwr:** Trefor Jones, Cwmcae

**Charollais**
**Hwrdd**
1. Elfed a Ffion Jones, Berthlwyd
**Oen hwrdd**
1. Teulu Llwynglas, Tal-y-bont
**Oen fenyw**
2. Teulu Llwynglas, Tal-y-bont
3. Teulu Evans, Tanllan

**Texel**
**Oen fenyw**
3. Huw Jones, Llety Cynnes
**Dorset Moel a Chorniog**
**Hwrdd**
1. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Oen hwrdd**
2. Griffiths a Davies, Dolclettwr
3. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Dafad oedrannus**
1. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Dafad flwydd**
1. Griffiths a Davies, Dolclettwr
2. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Oen fenyw**
1. Griffiths a Davies, Dolclettwr
3. Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Grŵp**
Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Pencampwr:** Griffiths a Davies, Dolclettwr
**Is-Bencampwr:** Griffiths a Davies, Dolclettwr

**Zwartbles**
**Hwrdd**
2. Susan Rowlands, Erglodd
**Dafad**
1. Susan Rowlands, Erglodd
**Dafad flwydd**
2. Susan Rowlands, Erglodd
**Oen fenyw**
2. Susan Rowlands, Erglodd
**Is bencampwr:** Susan Rowlands, Erglodd

**Beltex**
**Oen fenyw**
2. Teulu Evans, Tanllan

**Bridiau Pur eraill**
**Oen hwrdd**
2. Teulu Evans, Tanllan
**Dafad**
3. Teulu Evans, Tanllan

**Defaid Prin**
**Oen hwrdd**
1. Trefor Jones, Cwmcae
**Dafad flwydd**
1. Trefor Jones, Cwmcae
**Oen fenyw**
1. Trefor Jones, Cwmcae
2. Teulu Evans, Tanllan

**Grŵp**
Trefor Jones, Cwmcae
**Pencampwr:** Trefor Jones, Cwmcae
**Is bencampwr:** Teulu Evans, Tanllan
**Tywysydd ifanc dan 12 oed**
1. Harri Williams, Morawel, Tal-y-bont

**Ŵyn tewion**
**Dan 32kg**
1. Teulu Alltgoch
2. Teulu Tanllan
3. Teulu Alltgoch

**Dros 32kg**
1. Teulu Tanllan
2. Teulu Tanllan
3. Teulu Alltgoch

**Ŵyn mynydd**
1. Teulu Tanrallt
3. Teulu Tyngraig

**Pencampwr Ŵyn mynydd**
Teulu Tanrallt
**Pencampwr**
Teulu Tanllan
**Cilwobr Pencampwr y Pencampwyr Defaid**: Teulu Tyngraig

**Cneifio**
**Peiriant Agored**
1. Dewi Jenkins, Tyngraig
2. Gwion Evans, Tanllan
3. Rhydian Evans, Tynant






pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 10

**CFFI**
1. Dewi Jenkins, Tyngraig
2. Gwion Evans, Tanllan
3. Richard Bailey

**Cŵn**
**Ci neu ast 6-12 mis**
3. Barry Thomas, Ynys Einion, Eglwysfach
**Ci neu ast heblaw ci hela**
2. Brandon Kelly, 67 Maes y deri
**Unrhyw fath o gi agored, ci neu ast**
3. Brandon Kelly, 67 Maes y deri
**Ci defaid yn gweithio**
3. Becca Davies, LletyIfanhen
**Ci dan 12 modfedd**
1. Brandon Kelly
3. Isabella Lovell, Tynycwm Cottage, Cwm Einion
**Dangosydd dros 12 oed**
3. Brandon Kelly
**Cyflwr gorau**
2. Brandon Kelly
**Mwngrel neu frid x gorau (ci neu ast)**
2. Clare Tallis, Felinfach, Tal-y-bont
3. Phoebe Hinks, 6 Abernant, Tal-y-bont
**Anifail Anwes i blant**
1. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
2. Edith Heron, Crud yr Awel, Taliesin

**Ieir**
**Unrhyw fath o fantam gwir**
2. Elen Jenkins, Neuadd yr Ynys, Taliesin
**Plant o dan 15 oed**
3. Elen Jenkins, Neuadd yr Ynys

**Croes Frid (plant dan 15 oed)**
1. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll

**Hwyaid**
**Brid ysgafn Barlat**
1. Lowri a John, 12 Dôl Pistyll
**Hwyaden**
1. Lowri a John, 12 Dôl Pistyll
**Miniatur Barlat**
1. Jeremy Cartwright, Neuadd fach
2. Jeremy Cartwright
3. Lowri a John, 12 Dôl Pistyll
**Hwyaden**
1. Jeremy Cartwright
**Plant dan 15 oed**
1,2 a 3. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll

**Pencampwr a Chilwobr:** Jeremy Cartwright
**Plant (hwyaid) :** Becca Fflur

**CEFFYLAU**
**Merlota**
2. Becca Fflur, Dôl Pistyll
**Merlen, caseg neu geffyl marchogaeth dros 138cm**
1. Becca Fflur, Dôl Pistyll
**Dosbarth Lleol**
2. Becca Fflur, Dôl Pistyll
**Caseg neu geffyl orau 4 blwydd oed a throsodd sy'n addas ar gyfer gweithgaredd clybiau marchogaeth a merlota**
2. Lowri Morgan, Bontgoch
**Caseg neu geffyl 4 blwydd oed neu'n hŷn, i'w farchogaeth**
1. Lowri Morgan, Bontgoch
**Pencampwr Ceffylau Lliw a Palomino**: Lowri Morgan

**Bydd canlyniadau Sioe Llangynfelyn yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.**

**CANLYNIADAU RASUS CWN SIOE TAL-Y-BONT 2018**

**Dosbarth 1**
**Ras i gwn defaid**
1af Paul Pownall - Jake

**Dosbarth 2**
**Ras i Ddaeargwn**
1af Iola Evans - Bella
2il Katy Pricket - Roo
3ydd Amber Wells - Bill

**Dosbarth 3**
**Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr**
1af Annie May - Sunny
2il Llyr James - Jasper
3ydd Amber Wells - Fly

**Dosbarth 4**
**Ras i Filgwn bach**
Dim yn cystadlu

**Dosbarth 5**
**Ras i unrhyw frid arall coes byr**
1af Alys a Elena Jones - Rusty
2il Aled Jenkins - Ruby
3ydd . Aled Jenkins - Maddy

**Dosbarth 6**
**Ras i unrhyw frid arall coes hir**
1af Chris Fry - Solly
2il Chris Fry - Indus

**Dosbarth 7**
**Ras i Ddisgyblion ysgol Gynradd**
1af Tom Jackson - Sadie
2il Steffan Gilles - Tamed
3ydd Elena Jones - Rusty

**Dosbath 8**
**Ras i ddisgyblion ysgol Uwchradd**
1af Amelia Jackson - Sadie
2il Alistare Levey - Eddie

**Dosbarth 9**
**Ras i ferched a'u cwn**
1af Sam Mcmahon - Sol
2il Jenny Hobbiss - Fleur
3ydd Catherine Levey - Jessie

**Dosbarth 10**
**Ras i ddynion a'u cwn**
1af Rhodri Richards - Eli
2il Rhys Douglas - Boost
3ydd Dafydd Southgate - Joey

**Ras olaf y diwrnod**
Annie – May James - Sunny

# Bardd o Fri



Llongyfarchiadau i Glain Erin Jones, Tŷ Ni, 14 Dôl Pistyll a gipiodd y wobr gyntaf yn yr adran Cerdd Blwyddyn 5-6 yn Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Bro Hafren gyda'i cherdd 'Y Gêm'.

# Dafydd a'r Soflieir



Mae rhif 7, Maes y deri yn fwrlwm o weithgaredd yn ddiweddar gan fod Dafydd Williams a'i deulu wedi cychwyn ar fenter unigyw a difyr, sef busnes gwerthu wyau solfieir. Mae'r cynnyrch eisoes ar gael yn lleol ac os hoffech archebu'n uniongyrchol, cysylltwch ar 07773 978352

# Rhedwyr o fri



Ymhlith athletwyr talentog ardal Papur Pawb mae Elaine Rowlands, Maesyfelin a Ceris Williams, Penrhos Tal-y-bont. Ond er mai breuddwyd yn unig i'r mwyafrif ohonom fyddai rhedeg marathon o 26 milltir, mae'r ddwy yma newydd gwblhau yr hyn a elwir yn 'Ultra Trail Cymru', ras 50 milltir a hynny ar dirwedd fynyddig iawn. Roedd llwybr y cwrs yn codi dros 11,000 o droedfeddi gyda'r ras yn cychwyn yn Nolgellau ac yn anelu wedyn am y Bermo dros Cadair Idris. Ymlaen wedyn dros Diffwys, un o gopaon uchaf y Rhiniogydd at Ganolfan Ymwelwyr Coed y Brenin a nol i Ddolgellau. Mae'n debyg fod y golygfeydd o gopa'r Gadair yn ogoneddus a'r marched yn canmol y gefnogaeth o ran gorsafoedd dwr a bwyd ar hyd y daith. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch ar gwblhau cwrs uchelgeisiol a heriol.


# Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278


pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 11

# Teyrnged

## Cofio John Cwmere

Er iddo fod yn anhwylus ers peth amser, ac nid i'w weld o gwmpas lawer yn ddiweddar, roedd yn sioc clywed am farwolaeth un o gymeriadau mwyaf gwreiddiol a lliwgar Gogledd Ceredigion, sef John Thomas, Rhydyronnen, neu "John Cwmere".

Ganwyd John yn fferm Cwmere gan fynd i ysgolion lleol Tal-y-bont ac Ardwyn. Ond gadawodd yr ysgol i ffermio Cwmere dan bwysau ei rieni, a bu'n gweithio'n galed ar y fferm cyn symud i Rydyronnen. Roedd ei ffrind Dr Dafydd Huws am iddo fynd i goleg ond penderfynodd John aros adre i blesio'i rieni. Ond profwyd y cyngor yn gywir flynyddoedd yn ddiweddarach pan enillodd John radd Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Cymru, yn Hanes Cymru, pwnc oedd yn agos iawn at ei galon.



Roedd John yn genedlaetholwr o'r crud a chyfrannai'n gyson (ond yn ddienw) at Blaid Cymru. Roedd yna straeon di-sail iddo fod yn gysylltiedig â'r ymgyrch losgi tai haf. Bu hefyd yn weithgar yn ymgyrch arwyddion Cymdeithas yr Iaith yn nechrau'r saithdegau pan ddaliwyd ef yn malu arwyddion Saesneg yn ardal tafarn y George Borrow ym Mhonterwyd.

Dadleuai achos yr iaith mewn llefydd eraill, hefyd. Mae yna chwedl amdano yn anghytuno â rhyw Sais ar fater yr iaith ym mar Y Llew Gwyn, Tal-y-bont. Penderfynodd y Sais setlo'r ddadl trwy roi *head-butt* i John yn y fan a'r lle. Ond syrthiodd y Sais fel sach o datw ar fflagiau carreg y bar, a'i gludo mewn ambiwlans i'r ysbyty. Doedd e ddim i wybod bod gan John blaten o ddur yn ei dalcen, yn dilyn damwain beic modur a gafodd yn eisteddfod Caerdydd, pan oedd yn ugain oed.

Ond roedd yna sawl agwedd arall i gymeriad John. Hoffai gerddoriaeth a choginio a chafodd wersi cynganeddu gan Y Parch Roger Jones, yr englynwr a gweinidog Tabernacl, a broffwydodd ddyfodol disglair i John fel bardd, petai'n dal ati. Hoffai chwarae gwyddbwyll gyda Dr John Davies, Bwlch-llan, yr hanesydd. Bu ganddo fusnes adeiladu ar un adeg a dywedir mai John fedyddiodd y "JCB" gyda'r term Cymraeg "Jac Codi Baw".

Y mae yna lu o storïau am John, rhy niferus i'w nodi yma hyd yn oed petaen nhw'n pasio desg sensor Papur Pawb. Dyma un ddiniwed. Wedi iddo brynu tŷ teras yng ngwaelod y pentre, yn union gyferbyn â'r Patshyn Glas, penderfynodd wag lleol ddefnyddio tun o chwyn-laddwr, un noson, i greu llwybr brown rhwng y tŷ a drws blaen Y Llew Du. Nid oedd pawb yn hapus gyda'r jôc. Galwodd y cynghorydd sir lleol, oedd yn gadeirydd y 'Tal-y-bont Village Green Defence Committe' y weithred wrth y *Cambrian News* yn "completely irresponsible act" ond chwerthin a wnaeth llawer am sbel wedyn.

Yn ei flynyddoedd olaf, cafodd John ofal mawr gan Sujittra o Wlad Thai a bu John draw yn y wlad droeon yn cwrdd â'i theulu, oedd â meddwl mawr ohono. Merch iddo yw Catrin Fychan yr actores a bu Hilda, ei wraig gyntaf, yn gweitho am flynyddoedd i'r Lolfa. Cynhaliwyd yr angladd yn eglwys San Pedr, Bont-goch ar Orffennaf 3ydd gyda'r Canon Andrew Loat yn gwasanaethu a Robat Gruffudd yn talu teyrnged. Ar y daflen angladd argraffwyd cwpled addas o waith Gwilym Fychan, a fu'n frawd-yng-nghyfraith iddo:

*Colli'r gwâr lliwgar o'r lle*
*Yw marw John Cwmere.*

# Colofn Ben Lake



**Ydych chi wedi clywed am ymgyrch WASPI?**
Dyma ymgyrch bwysig dwi wedi bod yn ei gefnogi ers i mi gael fy ethol yn Aelod Seneddol llynedd. Mae'r ymgyrch yn mynd i'r afael â phwnc sy'n effeithio ar oddeutu 5,000 o fenywod yng Ngheredigion. Os ydych chi'n fenyw gafodd ei geni yn y 1950au, mae'n bosib iawn eich bod chi'n un o'r rheiny sydd wedi cael eu heffeithio.




Yn 1995 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol gynnydd graddol yn Oed Ymddeol Gwladol menywod o 60 i 65, ond ni roddwyd rhybudd digonol i'r sawl fyddai'n cael eu heffeithio. Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn datgan bod y Llywodraeth wedi aros tan 2009, h.y. 14 mlynedd ar ôl Deddf 1995, cyn ysgrifennu yn unigol at y menywod oedd yn mynd i gael eu heffeithio. Ym mis Mawrth 2011 stopiodd y Llywodraeth ysgrifennu at fenywod oherwydd bod Llywodraeth y Glymblaid yn ystyried deddfwriaeth bellach. Dyma oedd dechrau Deddf Pensiynau 2011, a gododd yr oed ymddeol i 66. Dechreuodd y Llywodraeth ysgrifennu at y menywod fyddai'n cael eu heffeithio yn 2012, oedd yn rhoi ychydig iawn o rybudd ynghylch y newidiadau oedd ar y gorwel.

Prif ddadl ymgyrch WASPI yw'r diffyg rhybudd a gafodd menywod a anwyd yn y 1950au o'r newidiadau i'w pensiwn gwladol. Oherwydd y diffyg rhybudd digonol, dwi wedi dod ar draws nifer o fenywod dros y misoedd diwethaf sy'n wynebu dyfodol ariannol ansicr iawn. Roedd nifer o'r menywod hyn wedi bod yn cynllunio eu sefyllfa ariannol yn ofalus iawn wrth iddyn nhw agosáu at oed ymddeol, gan dderbyn yn ganiataol y bydden nhw'n derbyn pensiwn gwladol yn 60 mlwydd oed. Bellach, o ganlyniad i'r cynnydd yn yr oed ymddeol, maent wedi gorfod ailedrych ar eu hopsiynau, ac er bod nifer o'r menywod hyn yn wynebu cyflyrau iechyd tymor hir, neu wedi ymrwymo i ofalu am wyrion neu berthnasau hŷn, maent nawr yn gorfod ystyried ymestyn eu cyflogaeth bresennol neu chwilio am gyflogaeth newydd.

Yn ogystal â chodi'r mater yn y siambr yn San Steffan, dwi hefyd wedi ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anghydraddoldeb Pensiwn Gwladol i Fenywod gyda'r bwriad o ddal y Llywodraeth i gyfrif. Yma yng Ngheredigion dwi wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn Aberteifi, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan i godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch, a dros yr wythnosau nesaf byddaf yn parhau i annog etholwyr ar draws Ceredigion i ymuno â mi yn yr ymgyrch ac i godi eu llais dros yr anghyfiawnder hwn.

Os hoffech chi wybod mwy am yr ymgyrch ewch i fy ngwefan www.plaidceredigion.cymru/pensions neu os hoffech chi drafod eich sefyllfa bersonol gyda mi, gallwch gysylltu'n uniongyrchol ar ebost: ben.lake.mp@parliament.uk neu drwy ffonio swyddfa'r etholaeth ar 01570 940333.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

# Teffratastig!




Bu Haf 2018 yn dymor prysur i Gwydion Jones, Gellimanwydd gynt. Derbyniodd ei ddoethuriaeth o Brifysgol Abertawe ar ddiwedd Gorffennaf a phythefnos yn ddiweddarach cipiodd y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth erthygl nodwedd yn Adran Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol. 'Darganfod Lludw Folcanigyng Nghymru' yw testun y darn a gall ddarllenwyr Papur Pawb ddod o hyd i'r erthygl yng nghyfansoddiadau yr Eisteddfod. Yr Athro Emeritws Deri Tomos oedd beirniad y gystadleuaeth a wele'r ddau wyddonydd mwstashog yn cyfarch eu gilydd ar faes y Brifwyl. Mae Gwydion erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Abertawe.

## Steddfod ½ Call a Dwl

**Papurau Bro Ceredigion**

Nos Wener 12 Hydref 2018
Neuadd Felinfach

Drysau'n agor: 7pm    Cystadlu'n dechrau: 7.30pm

Tâl mynediad: £3

Arweinydd Ben Lake AS
Beirniaid Elen Pencwm ac Aled Evans

### Cystadlaethau Llwyfan

**Darllen darn heb atalnodi**

**'Sgen ti 'dric parti'?**
Dim mwy na 3 munud

**Parti llefaru**
Darlleniad dramatig allan o bapur bro
Hunan-ddewisiad

**Cyflwyniad cerddorol**
Triawd y Buarth

**Cân Actol**
Ar lan y môr
Dim mwy na 4 munud

### Gwaith Cartref

**Ysgol Gynradd**
Llun unrhyw gyfrwng: Y Môr

**Ysgol Uwchradd**
Erthygl addas i bapur bro
Testun: Y Môr

**Dysgwyr**
Dyddiadur Diwrnod Braf

**Agored**

**Brawddeg** TRAWSGOED

**Limrig**
'Rwyf nawr yn rhy hen medde Sami...

**Stori Ficro** - dim mwy na 100 gair

**Ffotograffiaeth**
Eich hoff le yng Ngheredigion

Danfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw eich papur bro mewn amlen) erbyn **5 Hydref i: Y DDOLEN, Brynawel, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HU** neu drwy ebost i **y.ddolen@gmail.com**

Cefnogwch eich Papur Bro! Dewch mlân - cystadlwch!



## Llwyddiant yn y Sioe Fawr

Daeth llwyddiant mawr i deulu Jenkins yn Sioe Frenhinol Cymru yn ystod yr haf eleni. Enillwyd Cwpan y Frenhines gan Tryfil Caleb, tarw'r fuches Caran a Neuadd. Llongyfarchiadau i chi gyd.



# Hwyl yn y Rali

Bu aelodau C.Ff.I Tal-y-bont yn serennu yn Rali Sir Felinfach a gynhaliwyd ar Fferm Sychpant, Talsarn ar yr 2 Mehefin a bu ond y dim i'r clwb ennill ar ddiwedd y dydd. Clwb Lledrod aeth a hi gyda 145 o farciau â Tal-y-bont a Thregaron yn gydradd ail agos iawn gyda 144.

Unwaith yn rhagor bu'r clwb yn llwyddiannus gyda'r cystadlaethau barnu stoc. Gwnaeth tîm y Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig gipio'r wobr gyntaf, sef Dewi Jenkins, Tynygraig, Gwenno Evans, Tanllan ac Ynyr Siencyn, Tanyrallt. Dewi a Gwenno yn dod i'r brig hefyd yn unigol o dan 26 a 21 oed a Ynyr yn 3ydd dan 16 oed. Daeth y Tîm Barnu Moch Cymreig yn gyntaf hefyd sef Dewi Jenkins, Bedwyr Siencyn, ac William Jones, Caergywydd. Daeth Dewi i'r brig yn unigol dan 26 oed, a Bedwyr yn ennill o dan 21 oed. Bu Ynyr yn cystadlu'n unigol dan 16 oed gan gipio'r 3edd wobr. Tal-y-bont gipiodd y tlws am y clwb gorau ar draws yr holl gystadlaethau barnu stoc a llongyfarchiadau mawr hefyd i Gwenno am gipio'r wobr i'r unigolyn gorau am roi rhesymau yn Gymraeg. Bu Dewi, Gwenno a Bedwyr yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Fawr.

Daeth criw Arddangosfa'r Prif Gylch yn gyntaf am ras gyfnewid berfâu ar thema'r Llu Awyr Brenhinol. Aeth y criw ymlaen i gystadlu ar ran Ceredigion yn y Sioe Fawr gan ddod yn 4ydd. Cipiodd Richard John Jenkins, Ynysgreigiog, Teleri Morgan, Pwllglas a Harri Mason yr 2il wobr am Ddylunio a Chreu Barcud.

Daeth y criw yn y Gystadleuaeth Ganu yn 2il, gyda Beca Williams yn dod i'r brig am ganu fel unigolyn a'r grŵp yn 2il. Bu Beca yn cystadlu yn y Sioe Fawr ar ran Ceredigion gyda'r criw yn cipio'r 2il safle. Cafodd Bedwyr Siencyn, Tanrallt y 3edd wobr am Drin Gwlân. Bu criw ifanc o'r clwb yn cystadlu ar y Dawnsio gan gipio'r 8fed safle.

Yn y Gystadleuaeth i'r Aelodau daeth Tal-y-bont yn 6ed gyda'r tîm Coginio, sef Haf Evans a Seren Pugh yn 3ydd, Rhydian Evans, Neuadd Fawr yn 4ydd yn y Crefft ac Em Heke yn gosod Blodau.
Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau am eu gwaith graenus.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 13

# Priodasau



Priodwyd Nia Evans a Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont yng Nghapel Nasareth ar 4ydd Awst gan Y Parch Ddr Watcyn James. Mr Mark Rowlands oedd y gwas priodas a'r morwynion oedd Mrs Christine Bowen a Miss Sara Ward. Yn dilyn y gwasanaeth, dathlwyd gyda gwledd fendigedig yn Y Blac. Mi fyddant yn treulio eu mis mel yn Seland Newydd.



Priododd Alison Speake a Matty Lloyd o Dyfi Mor, Taliesin at 11 o Mai Yn Hafod Farm, Llanrwst gyda teulu a ffrindiau.



Mwynhawyd achlysur hapus yn Eglwys Sant Mihangel, Ddydd Sadwrn, 18fed o Awst pan briodwyd Tamsin Davies, gynt o Nantgrisial, Ffwrnais a Rinkal Desai o Bradford. Ei chwaer Joy oedd y gwas priodas (best woman?), ac 'roedd Emrys ei mhab bach yn rhan o'r gwasanaeth.

Canon Enid Morgan, o Aberystwyth, oedd yn gweinyddu, ac yn berthynas i'r teulu.

Cynhaliwyd y wledd yng Nghastell Glandyfi, a phawb wrth ei bodd yn mwynhau te prynhawn ysblennydd, mewn awyrgylch gartrefol.

Y mae Tamsin, yn Swyddog yng Nghangen y Coleg Cymraeg, yn y Brifysgol yn Aberystwyth, a Rinkal yn ddarlithydd ym Mhrifysgol, Warwick. Maent wedi ymgartrefu ym Machynlleth.

Dymuna y ddau ddiolch i aelodau'r Eglwys, am drefnu y blodau godidog, i Michael James, Borth am ei wasanaeth wrth yr yr organ, ac i bawb a wnaeth eu diwrnod mor arbennig. Pob hapusrwydd a hir oes i chi eich dau.


NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
**E** alun.davies142@btinternet.com






**Y LLEW GWYN**
**Tal-y-bont**
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
**Ar agor bob dydd**
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**
**(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)**
Ystafelloedd ar gael
**01970 832245**
**garethwhitelion@outlook.com**

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 14



## David Llewelyn Evans

'Dwi ddim yn mynd i esgus bod gwneud hyn heddiw yn hawdd! Ond dwi yma, fel pawb arall i gofio ac i ddathlu bywyd Dei, un oedd yn gymydog ac yn ffrind. Bywyd a ddiweddwyd cyn pryd, ond bywyd a fi yn un llawn. Mae'r dyrfa fawr sydd yma prynhawn yma yn profi hynny.

Ar lawer cyfrif mi roedd e fel fi, yn un o blant Cwm Ceulan a'r lle yn rhan annatod o'r ffordd yr oedden ni'n dau yn gweld y byd. Ond yn wahanol i fi, ganed Dei mewn lle gwahanol iawn ac yn sicr i gymuned wahanol, gan mai 'Cockney' bach, ac un o blant bach Llundain oedd e' yn wreiddiol!



Treuliodd ei fam a'i dad, Evan a'r diweddar Carol, saith mlynedd gyntaf eu bywyd priodasol yn ardal Kilburn, Llundain yn cynnal rownd laeth brysur a siop yn gwerthu pob dim. Yma sefydlwyd y teulu, Dei yn dod i'r byd yn gyntaf a Glenys wedi hynny. Daeth newid byd yn Ebrill 1971 pan ddychwelodd y teulu i Gymru ac i Dal-y-bont i ffermio Neuadd Fawr, gan ymgartrefu am y deg mlynedd gyntaf yng Ngorwelion, cyn symud wedi hynny fyny i Neuadd Fawr. Roedd hwn yn gyfnod hapus iawn ac fel y dywed Glenys, fe gafodd hi a Dei fagwraeth arbennig, er ei bod fel sawl chwaer fach arall wedi gorfod diodde' triciau a nychdod naturiol pob brawd mawr. Wedi cyfnod yn Ysgol Tal-y-bont mynd ymlaen wedyn i Ysgol Penweddig er nad oedd yn teimlo ei fod wedi elwa'n fawr o fod yno! Bu'n mynychu Felin-fach wedyn ddiwrnod yr wythnos a mwynhau'n fawr y joio a'r cymdeithasu.

Fel Evan a Carol, roedd menter a thrio pethau newydd yn ei waed. Amlygwyd hynny pan ddechreuodd gadw'r defaid 'Easy Care' ac mae'n siŵr bellach bod ganddo un o'r diadelloedd mwyaf yn y wlad. Bu'n gyfrannwr cyson i 'The Farming Forum', cyfrwng trafod ymysg ffermwyr ar-lein, am bob dim yn ymwneud â ffermio bob dydd. Roedd hyd yn ddiweddar yn aelod o Fenter Cig Oen Mynyddoedd Cambrian ac yn wir yr oedd yn un o'r naw sylfaenydd cyntaf. Menter sy'n hyrwyddo cig oen naturiol a thymhorol, ŵyn wedi eu geni, eu magu a'u lladd o fewn yr ardal arbennig yma o Gymru. Roedd wrth ei fodd yn cael mynychu cyfarfodydd NFU Cymru yn Llanelwedd fel Cynrychiolydd Ceredigion ar y Pwyllgor Ardaloedd Llai Ffafriol.

Fe wnaeth fwynhau ei gyfnod gyda'r Ffermwyr Ifanc fel aelod o Glwb Tal-y-bont yn fawr ac fe fyddai'n dweud yn aml fod ei genhedlaeth ef wedi cael joio go iawn gyda'r mudiad, heb gymaint o'r pwysau sydd ar yr aelodau heddiw. Roedd yn rhan o'r criw a enillodd Rali'r Sir yn ôl i Dal-y-bont ar ôl bwlch o dair blynedd ar hugain ym Mhenparc yn 1985. A Dei yng nghwmni Gwen Tanrallt, Huw Llety Ifan Hen a Delyth Carregcadwgan yn cipio'r wobr gyntaf am addurno car yn barod ar gyfer mis mêl y diwrnod hwnnw. Bu'n Gadeirydd rhwng 1986 a 1987 ac mae yna gofnod arbennig o'r aelodau yn y cyfnod hwn, a'r paratoi pybyr at Rali Llanilar 1987, yn y rhaglen deledu 'Rali'r Sir'.

Roedd ei gyfraniad a'i gefnogaeth i weithgaredd ei filltir sgwâr yn fawr a chyfraniad Dei fel gweddill y teulu yn fawr i'r Sioe, Clwb Hela Tal-y-bont a'r Treialon Cŵn Defaid. Roedd yn gymwynaswr naturiol a bu'n aelod gweithgar o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am nifer o flynyddoedd. Roedd y teulu, Jen a'r plant, yn rhan ganolog o'i fywyd. Cyfarfu Jen a Dei am y tro cyntaf yn Sioe Tal-y-bont. Priodi'n ifanc - Dei yn un ar hugain a Jen yn ugain oed, ac ymgartrefu yn Nhynrhelyg a chroesawu'r plant o un i un. Bu'n gefnogol iawn iddynt ar hyd y blynyddoedd a chymerai diddordeb mawr yn eu llwyddiant. Newid aelwyd fu hanes y teulu yn Awst 2002, pan symudodd Evan a Carol i Tynrhelyg a Dei, Jen a'r plant i Neuadd Fawr.

Wedi profi cyfnodau anodd iawn hefyd, yn arbennig adeg gwaeledd Carol a chancr Jen, yn enwedig pan roedd y ddwy yn sâl ar yr un pryd. Ar un adeg byddai'n ymweld ag ysbyty Bronglais yn ddyddiol, ymweld â Jen ar ward Meurig a mynd i weld Mam yn ward Rhiannon. Gwnaeth e' fyth fethu diwrnod ac roedd gweld y ddwy yn dioddef salwch cas a chreulon yn anodd iddo. Mi o ni'n gweld Dei yn debyg iawn i'w Fam mewn sawl ffordd a bu ei cholli hi yn ergyd drom iddo.

Mae yna anghrediniaeth a cholled ddiamheuol rhwng y muriau yma heddiw ond rhaid ceisio'n gorau i godi uwchlaw'r tristwch. Heb os bydd bwlch enfawr ar ôl Dei, ond rhaid llawenhau yn yr hwyl a gafwyd yn ei gwmni, a diolch am ei gefnogaeth. Mae e' yma o hyd yn Siôn, Rhydian, Hefin a Medi. Gallu fod yn browd iawn Jen dy fod di a Dei wedi magu pedwar o bobl ifanc arbennig.

Cwsg yn dawel Dei.'

*(rhan o'r deyrnged a draddodwyd gan Rhian Evans yn angladd David Llewelyn Evans yn Bethel, Tal-y-bont)*

Cigydd
Porchell
01970 828 447 Pendre, Bow Street
Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

# Cletwr

Dydy'r haf ddim wedi gorffen eto, ond mae hi wedi bod yn amser hynod o brysur - a llwyddiannus wrth gwrs. Mae'r caffi wedi bod yn llawn dop drwy'r dydd, bob dydd, beth bynnag y tywydd, gydag ymwelwyr newydd a phobl leol yn mwynhau siopa ac arlwy'r caffi.. Mae Cletwr wir yn gartref i'r gymuned. Nid ar gyfer pobl leol yn unig yw Cletwr, ond mae'n gartref i gymuned arall o ymwelwyr rheolaidd, sy'n galw i mewn am forefwyd a choffi bob wythnos ar eu teithiau o gwmpas Cymru. Ac mae croeso mawr iddyn nhw i gyd bob tro.

Ond doedd dim croeso i'r dihiryn wnaeth torri i mewn rhyw noson cwpl o wythnosau yn ôl, a dwyn tua gwerth £750 o sigarennau a baco. Chwalwyd ffenest y swyddfa - rhaid disgwyl am wythnosau cyn i'r un newydd ddod o Norwy! Os ydych chi'n gwybod unrhyw beth, neu yn clywed am rywun yn cynnig sigarennau rhad, ffoniwch 101.

Mae croeso i chi ymweld a'n tudalen Facebook i gael gwybodaeth am ddigwyddiadu'r caffi. /Cletwr) ond mae yna un uchafbwynt amlwg. Ar 29 o Fedi am 7.30 y.h. bydd cyfle i fwynhau cyngerdd cyfareddol gan gôr deinamig, dwyieithog ac unigryw – 'Sgarmes'! Bydd bar ar gael. Tocynnau £8 oddi wrth Cletwr.

Mae nifer o bobl wedi gofyn "Ble mae'r pwynt llenwi ceir trydan?" Yr ateb syml yw '"Mae e ar ei ffordd, byddwch yn amyneddgar!"

Diolch am eich cefnogaeth, a cadwch lygaid ar ein tudalennau /Facebook a Thrydar @Cletwr - ac wrth gwrs dewch i mewn am ddishgled!

*NC*

**Cystadleuaeth Pensaernïaeth yr Eisteddfod**

Efallai bod rhai ohonoch a oedd i lawr yn y Bae ar gyfer y Brifwyl wedi ymweld â'r Lle Celf yn y Senedd a gweld canlyniadau'r Fedal Aur. Na, dim Medal Aur i Cletwr, ond roedden ni ar y rhestr fer. Llongyfarchiadau mawr i'n penseiri, George & Tomos o Fachynlleth. Yn deilwng iawn. Fel rhan o'r gystadleuaeth, cyfansoddwyd cerdd gan y bardd Morgan Owen i ddathlu pob un. Dyma ei deyrnged i Cletwr: credwn ei fod e wedi cipio naws Cletwr yn berffaith.

Cymuned sy'n troi hanner ffordd
 yn gyrchfan:
down ynghyd, oedwn ennyd
 dan un gronglwyd
rhag unigedd yr hewl syth.
Torrwn ein taith rhwng y gors
 a'r rhos ac ymgydnabod,
  yn y bwlch,
 â'n gilydd; trown ein gwasgariad
yn gymundod
 a llanwn hyd y to y lle hwn
  o gyd-leisiau dros dro.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 15




## Un ffordd o Ddal Ati yn Nolgellau

Dyma griw Dal Ati o'r Cletwr wedi ymgynnull ar y sgwâr yn Sesiwn Fawr Dolgellau eleni. Gan fanteisio ar y cynllun teithio am ddim ar fws y T2, aethon ni i'r Sesiwn Fawr am y prynhawn a mwynhau i'r eitha. Braf oedd i'r dysgwyr yn ein plith gael cyfle i brofi naws digwyddiad hollol Gymraeg.

## Casgliad Cymorth Cristnogol 2018

Ar ran y pwyllgor diolchwn i bawb am eich rhoddion eto eleni. Rydym yn falch iawn o groesawi Nia at y tîm o gasglwyr. Diolch i chi i gyd am roi eich amser i fynd o gwmpas i gasglu yn flynyddol.

Casglwyd fel a ganlyn:
Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos) £140.09
Stryd y Capel a Maes y Felin (Falyri Jenkins) £200.11
Ardal Bontgoch (Geraint Evans) £106.34
Pentref Tal-y-bont (Helen Jones a Ruth Jên) £97.33
Ardal Cynnullmawr (David Nutting) £126.20
Dan y Dderwen i'r Ffald (Bleddyn a Delyth Huws) £33.29
Dôl Pistyll, Penlon a'r Ffald (Anwen Jenkins) £126.54
Maes-y-deri (Nia Richards) £55.88
Pensarn a Chwm Ceulan (Gwilym Jenkins) £109.38
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones) £125.84
Cyfanswm £1,121.00

*Gwilym Jenkins a Janet Jones*

# Treialon Cŵn Defaid

Cynhaliwyd cystadleuaeth Treialon Cŵn Defaid Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar y cyd gyda Threialon Tal-y-bont ddechrau mis Awst ar fferm Llety-Ifan Hen, Bontgoch. Llongyfarchiadau i Teifion Morgan, Penparc ar ennill y gystadleuaeth ac i Dewi Jenkins, Tal-y-bont ddaeth yn ail a thrydydd.




# Pobl a Phethe

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Eifion a Tara Jones, Cilgant-y-coed, Taliesin ar enedigaeth Hettie Fflur, chwaer fach i Miri Lois.

**Gweithio tramor**
Pob dymuniad da i Eurgain Phylip, Maes-y-felin, Tal-y-bont, sydd newydd ddechrau ar swydd newydd gydag elusen ieuenctid ym Mhrague, Gweriniaeth y Siec.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Ellen ac Iolo ap Gwynn, Garreg Wen, Tal-y-bont, a fu'n dathlu eu priodas aur ym mis Gorffennaf.

**Penblwydd arbennig**
Bu Lyn Ebenezer, 2 Maes-y-felin, Margaret Jenkins, Tynygraig a Myfanwy James bu'n dathlu pen-blwydd arbennig dros yr haf.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Gwyndaf Evans, Maes-y-deri, a'i deulu, ar farwolaeth ei frawd, Alwyn Evans, Machynlleth, ym mis Gorffennaf.

**Ymddeoliad**
Pob dymuniad da i Gwenallt Llwyd Ifan, Lys Alaw, Tal-y-bont, a ymddeolodd o'i swydd fel prifathro Ysgol Penweddig ddiwedd Awst.

**Damwain**
Dymunwn wellhad buan i Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont,a gafodd niwed i'w droed ym mis Awst.

**Penblwydd Hapus**
Dymuniadau gorau i Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch a ddathlodd benblwydd arbennig ar 5 Medi.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Nerys Roberts, Maes-y-deri a Todd Rewbury ar eu dyweddiad. Dymuna'r ddau ddiolch am y cardiau a'r anrhegion.

**Diolch**
Dymuna Eirian, Iestyn a Nerys Roberts, Maes-y-deri, ddiolch i bawb am y cardiau, blodau, dymuniadau a rhoddion er cof am Gerald Roberts.



**EISTEDDFOD**
**Urddo i'r Orsedd**
Llongyfarchiadau calonnog i Nigel Callaghan, Taliesin, ar gael ei urddo i Urdd Dderwydd yn dilyn llwyddiant wrth sefyll arholiadau'r Orsedd llynedd ac eleni. Mae Nigel yn ddiolchgar Felicity Roberts am ei chymorth a chefnogaeth.

Enw Nigel yn yr Orsedd yw 'ap Gwenffrewi' gan mai enw ei ddiweddar fam oedd Winifred Joyce Mordecai. Un o'r hen sir Forgannwg oedd hi ac, er yn ddi-Gymraeg, roedd yn Gymraes i'r carn ac yn falch iawn o'i chefndir Cymreig.

Mae ei mab yn llawn haeddu'r anrhydedd. Mae ei gyfraniad i'r gymuned yn amhrisiadwy.

**Marwolaeth**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth diweddar Trevor Jones, Maes-y-deri yn Ysbyty Brongalis. Bu Trevor yn gymwynaswr ffyddlon i'r ardal a chwith yw colli un o gymeriadau y pentref.

**Cartref Newydd**
Croeso i Cherry Sidnell, David Harding ac Oscar, Toby a Koa i'w cartref newydd yn 98 Maes-y-deri. Hefyd i Tara, Neal, Isacc a Lolla Foster sydd wedi ymgartrefu yn 97 Maes-y-deri a Gavin Pugh a Caron Hywel i Eddington House.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Robert Jones a'i briod Llys Terfyn gynt, a enedigaeth mab sef Haydn ac i nain a taid, Barri a Heather Jones.

**Diolch**
Mae Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont wedi rhoi'r gorau i fod yn un o ohebyddion Papur Pawb. Mae Aileen wedi cynorthwyo mewn sawl swyddogaeth gyda'r papur dros y blynyddoedd ac mae lle i ddiolch iddi am ei holl gymwynasau.

pp medi 18.qxp_Layout 1 11/09/2018 8:04 am Page 16

# CHWARAEON



Llun: Colin Ewart

# Diwedd Cyfnod

Mae'n ddiwedd cyfnod i'r timau pêl-droed bechgyn a merched Tal-y-bont a ffurfiwyd yn wreiddiol tua deng mlynedd yn ôl. Mae'r timau nawr yn rhy hen i chwarae yn y cynghreiriau ieuenctid a bellach mae llawer o'r chwaraewyr wedi ymuno â chlybiau ar gyfer oedolion.

Mae'r rheolwyr sydd wedi bod gyda'r timau hyn dros y blynyddoedd, Nicola Myring-Thomas a Andy Roberts y tîm merched, ac Wyn Benjamin, yn werthfawrogol iawn o ymdrech y chwaraewyr a'r gefnogaeth a gafwyd gan Andy James ac Andy Humphries a fu'n hyfforddi'r bechgyn. Yn bennaf oll maent yn ddiolchgar i Ceri Jones a fu'n trefnu'r clwb ieuenctid mor effeithiol dros y blynyddoedd.

Ar ddechrau'r daith, roedd y merched wedi chwarae yn erbyn timau cryfach o fechgyn ond fe dalodd hynny ar ei ganfed pan ddechreuon nhw gystadlu yn erbyn timau o ferched. O'r cychwyn cyntaf, roedd y bechgyn wedi datblygu'n dîm cryf a allai gystadlu bob amser gyda thimau lleol eraill. Dros gyfnod o ddeng mlynedd enillodd y tîm hwn 23 o gwpanau.

O edrych yn ôl ar adroddiadau yn hen rifynnau *Papur Pawb* (sydd ar gael ar wefan y papur www.papurpawb.com) mae modd gweld datblygiad a llwyddiannau y timau hyn. Mae'r llun uchod yn eu dangos fel pobl ifanc aeddfed sydd wedi manteisio a dysgu llawer o fedru cydweithio a chyd-fwynhau ar feysydd pêl-droed yr ardal.

## Golff

Llongyfarchiadau i Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont a enillodd y 'Griffiths Salver' am ei llwyddiant mewn cystadleuaeth ar gwrs golff Borth ac Ynyslas ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd yr hambwrdd arian iddi gan gapten y clwb, Jean Harrison.




argraffu da
am bris da



y Lolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**


## Tour De Tal-y-Bont



Heb amheuaeth, y digwyddiad mwyaf cyffrous yn y byd chwaraeon yng Nghymru dros yr haf oedd buddugoliaeth Geraint Thomas yn y Tour de France. Manteisiodd yr arlunydd lleol, Ruth Jên, drwy gynhyrchu print hardd yn dathlu camp y seiclwr gan ddefnyddio ei thema poblogaidd 'Y Ladis'. Mae'n debyg bod galw mawr am gopiau a bod Ruth wrthi'n brysur yn sicrhau bod pob archeb yn cael ei gwblhau mewn da bryd.

Roedd cysylltiad arall â'r râs gan fod dau o'r sylwebwyr teledu a fu'n disgrifio'r cyfan yn ddeheuig iawn ar S4C yn gyfarwydd iawn i drigolion Tal-y-bont, ac yn benodol drwy eu cysylltiad â chapel y Tabernacl.

Roedd y prif sylwebydd, Wyn Gruffydd, yn byw yn Nhal-y-bont am gyfnod pan oedd yn blentyn gan fod ei dad y Parch. W J Gruffydd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yng nghapel Tabernacl yn ystod yr 1950au. Ac erbyn heddiw mae cyd-sylwebydd Wyn, y beiciwr proffesiynol Gruff Lewis yn byw yn y Tabernacl gyda'i deulu.